

HUGHES, JOHN WILLIAM (1817 - 1849; ' Edeyrn ap Nudd,' ac wedi hynny ' Edeyrn o Fôn '; llenor crwydrad

Enw: John William Hughes
Ffugenw: Edeyrn ap Nudd, Edeyrn O Fôn
Dyddiad geni: 1817
Dyddiad marw: 1849
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llenor crwydrad
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Thomas Richards

Ganwyd ym Modedern, mewn tlodi mawr, mab i saer maen; crwba gwyrngam o gorff; cael ei brentisio yn deiliwr. Esgeuluso addysg, ond cael hwyl ar brydyddu; yn 1840 cyhoeddodd *Cell Awen* (yr Wyddgrug), lle y mae cerdd hir o'i eiddo yn canmol ei gefnogwyr (t. 33-69); yn 1842 cyhoeddi'r *Lloffyn* yn Aberystwyth, ei waith ef ac eraill. Cafodd lawer o garedigrwydd gan rai o offeiriaid Môn, ac erbyn 1844 yr oedd ym Mangor yn ceisio ymgymhwyso at gael urddau Eglwys Loegr. Yn anffodus daeth ar draws [Isaac Harries](#), golygydd brochus *Figaro the Second*, ac aeth yn ffrae benben rhyngddynt yn y Gymdeithas Gymreigyddol; ffrwyth y ffrae oedd gosod cart n hyll o ' Edeyrn ' yn y *Figaro*, ac yntau'n ateb drwy fygwth dod ag *Anti-Figaro* allan i ateb y *Figaro*. Nid oedd felly fawr hwyl ar yr ymgymhwyso; er hynny, cyhoeddodd bamffled yn y Bala, 1844 (arg. Sanderson), ateb chwyrn i ymosodiad Bedyddiwr ar Eglwys Loegr, ac yn 1845 *Gwinllan Galar* (arg. Llanrwst), marwnadau am offeiriaid a fu'n noddwyr iddo. Ym misoedd olaf 1845 yr oedd yn Llanerfyl, ac erbyn haf 1847 yn Llundain, yn derbyn cardod gan ' Aled o Fôn,' chwarae englynion digrif gyda ' Sam o Fôn,' rhoddi gwersi mewn Cymraeg i ferch ' [Gwrgant](#) ', a derbyn gwersi mewn Saesneg gan fwy nag un athro. Yr oedd yn gystadleuydd aflwyddiannus yn eisteddfod y Fenni, 1848; bu am fisoedd yn y flwyddyn honno a dechrau 1849 yn aros gyda llenorion caredig Pontypridd, y Fenni, a Merthyr Tydfil. Dywedir fod yn ei fryd gystadlu ar yr awdl yn eisteddfod Aberffraw, haf 1849; sicr yw fod yn ei fwriad gyhoeddi llyfryn dan yr enw *Llusern Eglwysig*, a chasglu enwau at hwnnw. Yng ngogledd Penfro yr ydoedd pan fu farw (Ebrill 1849) mewn tafarn rhwng Mathry a Thre Newydd, a'i gladdu yn Llanhywel; a bu amgylchiadau'r marw hwnnw yn destun ymdderu rhwng offeiriaid a phregethwyr yng ngholofnau'r *Haul* a *Chymro Bangor* am fisoedd lawer ynghylch y tosturi a ddangoswyd ato gan rai a'r tosturi (meddir) na ddangoswyd gan eraill.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

Cymru (O.M.E.) xii, 129-31

Journal of the Welsh Bibliographical Society, v, 227-9

Y Cymro (Bangor) am 1849, rhifau 41, 42, 43, 45, 48, 51

Yr Haul, 1849, 265, 329, 396; 1850, 35, 58

John Williams, *Notes and Narratives of Thirty Years Missionary and Ministerial Labours in England and Wales* (Machynlleth 1885), 75

Carnarvon and Denbigh herald, and North and South Wales independent, 18 Rhagfyr 1847 (cywydd moliant i Wrgant a'i deulu)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733678](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

